# Uned 1 UG: Ein Hamgylchedd Adeiledig

## 2.1.4: Sefydliadau

### 2.1.4: Sefydliadau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **BBaCh** | Busnesau bach a chanolig. Mentrau sydd â llai na 250 o weithwyr, sy'n cynnwys dros 90% o fusnesau'r DU, gan gynnwys y rhan fwyaf o gontractwyr ac ymgynghorwyr adeiladu'r DU. |
| **Cwmnïau Cenedlaethol** | Contractwyr ac ymgynghorwyr sydd â swyddfeydd lleol sy'n gallu gwasanaethu'r DU gyfan. |
| **Cwmnïau Byd-eang** | Contractwyr ac ymgynghorwyr sydd â sefydliadau sy'n eu galluogi i weithredu ar draws sawl cyfandir. |
| **Tendro** | Proses ymgeisio gystadleuol, lle mae contractwyr yn cyflwyno cynigion a phris ar gyfer gwneud gwaith. |
| **Caffael** | Y broses o brynu nwyddau neu wasanaethau. |
| **Awdurdod Lleol** | Llywodraeth leol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau fel gofal cymdeithasol, tai, cynllunio, ysgolion ac ati. |

### CONTRACTIO AC IS-GONTRACTIO

**Y prif gontractwyr** yw'r sefydliadau a benodir (contractau a ddyfernir) gan gleientiaid i gyflawni'r gwaith adeiladu sydd ei angen arnyn nhw.

**Is-gontractwyr domestig.** Fel arfer, busnesau masnach a benodir gan brif gontractwyr i wneud gwaith na allan nhw ei gwblhau gan ddefnyddio eu gweithwyr eu hunain.

**Is-gontractwyr enwebedig.** Fel arfer, arbenigwyr y mae'r cleient yn cyfarwyddo'r prif gontractwr i'w defnyddio.

**Cyflenwyr enwebedig.** Fel arfer, cwmnïau arbenigol y mae'r cleient yn cyfarwyddo'r prif gontractwr i gael deunyddiau dethol ganddyn nhw.

### PROSESAU TENDRO A CHAFFAEL

**Tendro Agored:** Mae tendro agored yn arbennig o berthnasol i waith a ariennir yn gyhoeddus. Mae'n cynnig cyfle cyfartal i sefydliadau ymateb i wahoddiad tendr cyhoeddedig. (Efallai y bydd angen cyn-gymhwyso i dendro ar gyfer prosiectau mwy). Gall y broses hon fod yn dendr un cam neu'n dendr dau gam, lle y gwneir penodiad cynnar fel y gall rhywfaint o waith fynd rhagddo cyn cytuno ar bris sefydlog.

**Tendro dethol:** Arbennig o briodol ar gyfer contractau arbenigol. Mae'n golygu gwahoddiad rhestr 'gymeradwy' o gontractwyr a ddewiswyd ymlaen llaw i gyflwyno tendrau. Gellir cylchdroi a diweddaru'r rhestr gymeradwy er mwyn osgoi tuedd a sicrhau arloesedd fel y darperir gan gwmnïau newydd sy'n dod i mewn i'r farchnad.

**Tendro wedi'i negodi:** Mae hyn yn digwydd pan fo'r cleient yn negodi gydag un contractwr oherwydd ei enw da. Math addas o dendro ar gyfer contractau dylunio ac adeiladu, sy'n caniatáu i'r contractwr gael ei benodi'n gynnar fel y gall gyfrannu / dod yn gyfrifol am gamau dylunio'r prosiect.

### Y DDEDDF CAETHWASIAETH FODERN

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau masnachol sy'n gwneud busnes yn y DU, gyda throsiant o o leiaf £36 miliwn baratoi a chyhoeddi datganiad caethwasiaeth a masnachu mewn pobl bob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r datganiad ddisgrifio'r camau a gymerir i sicrhau nad oes caethwasiaeth na masnachu mewn pobl yn ei fusnes na'i gadwyn gyflenwi.

### ADRANNAU AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL (ACLl)

Bydd yr ACLl yn cyflogi swyddogion cynllunio proffesiynol i ystyried ceisiadau a gwneud argymhellion i 'Bwyllgor Cynllunio' o gynghorwyr etholedig ynghylch penderfyniadau i roi neu wrthod caniatâd. Bydd y swyddogion cynllunio hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad cyn ymgeisio i ymgeiswyr ac yn cynghori'r awdurdod ar faterion cadwraeth, adeilad rhestredig a diogelu coed.

### CYRFF HYFFORDDI'R DIWYDIANT

**Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB - *Construction Industry Training Board*)**

Mae'r CITB yn gorff cyhoeddus ac yn elusen a ariennir gan y diwydiant adeiladu gyda'r bwriad o sicrhau bod cyflenwad digonol o bobl hyfforddedig a chymwys ar bob lefel o fewn y diwydiant, gan ganolbwyntio'n bennaf ar brentisiaethau a datblygu gyrfaoedd.

**Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB - *Federation of Master Builders*)**

Mae'r FMB yn gymdeithas fasnach wirfoddol sy'n darparu hyfforddiant parhaus ac yn arolygu gwaith a wneir gan ei haelodau i ddarparu prawf cymhwysedd credadwy a diogelu gwarant i aelodau sy'n gleientiaid.

### COFRESTRU BUSNESAU A CHYNLLUNIAU DATBLYGU

**Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO - *International Organisation for Standardisation*)**

Mae'n cyhoeddi safonau rhyngwladol ('y ffordd orau o wneud rhywbeth'), gan gynnwys safonau ISO ar gyfer Rheoli Ansawdd Amgylcheddol ac Ynni ac Iechyd a Diogelwch. Mae Achrediad ISO yn rhoi cydnabyddiaeth wedi'i hardystio'n annibynnol bod cynnyrch neu wasanaeth a gyflenwir gan fusnes yn bodloni safonau rhyngwladol.

**Cynllun Adeiladwyr Ystyriol (CCS - *Considerate Constructors Scheme*)**

Gall contractwyr gofrestru gyda'r cynllun gwirfoddol hwn ac yna rhaid iddyn nhw gydymffurfio â'i god ymddygiad gyda'r nod o gynnal perthynas dda â chymdogion safle, y cyhoedd a'r amgylchedd.

**Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS - *Construction Skills Certification Scheme*)**

Mae llawer o gontractwyr yn mynnu bod gan weithwyr safle gerdyn CSCS dilys cyn caniatáu iddyn nhw fynd i mewn i'w safle. Mae'r cynllun cardiau ardystio yn cadarnhau bod gan y deiliad hyfforddiant, cymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer ei waith, gan gyfeirio'n benodol at Iechyd a Diogelwch.

**Cofrestr Personau Cymwys**

Cynllun gan Lywodraeth y DU sy'n caniatáu i hyfforddwyr cymeradwy gofrestru personau cymwys i hunanardystio bod eu gwaith yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu.